OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2019 Rhif 1407 (Cy. 248)

2019 No. 1407 (W. 248)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019

The Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) (Amendment) Regulations 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316 (Cy. 228)) ("Rheoliadau 2019").

Mae rheoliad 3 yn gwneud mân ddiwygiad i destun Cymraeg rheoliad 6 o Reoliadau 2019 i sicrhau cyfwerthedd â'r testun Saesneg.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i reoliad 7 o Reoliadau 2019, er mwyn cywiro croesgyfeiriad a sicrhau cyfwerthedd rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) Regulations 2019 (S.I. 2019/1316 (W. 228)) ("the 2019 Regulations").

Regulation 3 makes a minor amendment to the Welsh language text of regulation 6 of the 2019 Regulations to effect equivalence with the English language text.

Regulation 4 makes amendments to regulation 7 of the 2019 Regulations, to correct a cross-reference and effect equivalence between the English and Welsh language texts.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2019 Rhif 1407 (Cy. 248)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gwnaed *28 Hydref 2019*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *29 Hydref 2019*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio gollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol, eu gosod ar y farchnad a'u symud ar draws ffin.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 111(4) ac (11) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**), ar ôl ymgynghori â'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 126(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

(**1**) O.S. 2003/2901. Yn rhinwedd paragraffau 28(1) a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae O.S. 2003/2901 yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), a chan adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**3**) 1990 p. 43. Mae is-adran (11) yn diffinio "prescribed". Amnewidiwyd adran 126 gan baragraff 18 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn wedi hynny i Weinidogion Cymru.

2019 No. 1407 (W. 248)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) (Amendment) Regulations 2019

Made *28 October 2019*

Laid before the National Assembly for Wales *29 October 2019*

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to measures relating to the control and regulation of the deliberate release, placing on the market and transboundary movements of genetically modified organisms.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972 and section 111(4) and (11) of the Environmental Protection Act 1990(**3**), having consulted the Food Standards Agency in accordance with section 126(5) of the Environmental Protection Act 1990.

(**1**) S.I. 2003/2901. By virtue of paragraphs 28(1) and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), S.I. 2003/2901 has effect as if made under section 59(1) of that Act.

(**2**) 1972 c. 68; section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51), and section 3 of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).

(**3**) 1990 c. 43. Subsection (11) defines "prescribed". Section 126 was substituted by paragraph 18 of Schedule 3 to the Food Standards Act 1999 (c. 28). The functions of the Secretary of State under these provisions were transferred to the National Assembly for Wales under article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Function) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 these functions were then further transferred to the Welsh Ministers.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

Diwygio Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019

2. Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

Diwygio rheoliad 6

3. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 6 (diwygio Atodlen 1), ym mharagraff (13), ar ôl "chwynnog," mewnosoder " neu".

Diwygio rheoliad 7

4. Yn rheoliad 7 (mewnosod Atodlen 1A)—

(a) yn nhestun Cymraeg paragraff 3 a fewnosodir, yn lle "(e) enw cyffredin" rhodder "(dd) enw cyffredin",

(b) yn nhestun paragraff 15(c) a fewnosodir, yn lle "14(dd)" rhodder "14(1)(e)", ac

(c) yn nhestun Cymraeg paragraffau 22(a) a 24(1)(a) a fewnosodir, hepgorer "amgylcheddol".

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) (Amendment) Regulations 2019.

(2) These Regulations come into force on the day after the day on which they are made.

Amendment of the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) Regulations 2019

2. The Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) Regulations 2019(**1**) are amended in accordance with regulations 3 and 4.

Amendment of regulation 6

3. In the Welsh language text of regulation 6 (amendment of Schedule 1), in paragraph (13), after "chwynnog," insert " neu".

Amendment of regulation 7

4. In regulation 7 (insertion of Schedule 1A)—

(a) in the Welsh language text of the inserted text of paragraph 3, for "(e) enw cyffredin" substitute "(dd) enw cyffredin",

(b) in the inserted text of paragraph 15(c), for "14(f)" substitute "14(1)(g)", and

(c) in the Welsh language text of the inserted text of paragraphs 22(a) and 24(1)(a), omit "amgylcheddol".

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
28 Hydref 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
28 October 2019

©ⓑHawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2019/1316 (Cy. 228).

(**1**) S.I. 2019/1316 (W. 228).

£4.90

W201910281019 11/2019

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1407

ISBN 978-0-348-20477-3

9 780348 204773